TGAU

# CBAC TGAU
# Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllawiau Addysgu: Uned 3 Opsiwn 3.1

Addysgu o 2026

Dyfarnu o 2028

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 1

Nodau'r Canllawiau Addysgu ........ 1

Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth: ........ 1

Strwythur y cymhwyster ........ 2

Asesu ........ 3

Crynodeb o'r Asesu ........ 3

Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau ........ 3

Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.1 Yr Oesoedd Canol: Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 ........ 4

Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.1 Yr Oesoedd Canol: Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 ........ 5

Profiadau Dysgu ........ 33

Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru ........ 34

Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.1 Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 ........ 42


© WJEC CBAC Ltd. 2025

# CRYNODEB O'R ADDASIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Addaswyd i, dyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028 | 1 |

## Cyflwyniad

Mae CBAC TGAU Hanes wedi'i gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ac mae ar gael i bob canolfan yng Nghymru. Bydd yn cael ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn Haf 2028, gan ddefnyddio graddau A* i G.

### Nodau'r Canllawiau Addysgu

Prif nod y Canllawiau Addysgu yw cefnogi athrawon wrth iddynt gyflwyno manyleb newydd CBAC TGAU Hanes a chynnig arweiniad ar ofynion y cymhwyster a'r broses asesu. **Ni fwriedir i'r Canllawiau Addysgu fod yn ddogfen gynhwysfawr i gyfeirio ati** ond yn hytrach i gynnig cefnogaeth i athrawon proffesiynol wrth ddatblygu cyrsiau ysgogol a chyffrous sydd wedi'u teilwra i anghenion a sgiliau'r dysgwyr. Mae'r canllawiau'n cynnig gweithgareddau posibl yn yr ystafell ddosbarth a chysylltau i adnoddau digidol defnyddiol (gan gynnwys ein deunyddiau digidol ein hunain, sydd ar gael yn rhad ac am ddim, a rhai o ffynonellau allanol) i roi syniadau ar gyfer gwersi diddorol ac atyniadol.

### Ffyrdd ychwanegol y gall CBAC gynnig cymorth:

- deunyddiau asesu enghreifftiol a chynlluniau marcio
- digwyddiadau dysgu proffesiynol
- adroddiadau arholwyr ar bob uned
- y gallu i gysylltu'n uniongyrchol â'r swyddog pwnc
- adnoddau ar-lein am ddim
- Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau
- Adolygu Arholiadau Ar-lein.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Strwythur y cymhwyster

Mae CBAC TGAU Hanes yn cynnwys pedair  uned.Rhaid i'r cyfuniad o opsiynau a ddewiswyd ar gyfer Unedau 1, 2 a 3 gynnwys un uned oesoedd canol, un uned fodern gynnar ac un uned fodern.

Yn Uned 4, gall canolfannau ddewis ailadrodd cyfnod amser a astudiwyd yn flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer eu hastudio yn Uned 4 ailadrodd na gorgyffwrdd â chynnwys unrhyw un o'r unedau eraill a ddewisir.**

Cymhwyster unedol yw hwn ac nid yw'n cynnwys haenau. Nid oes hierarchaeth o ran trefn dysgu'r unedau.

| | Teitl yr uned | Math o Asesiad | Pwysoli |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Astudiaeth fanwl o hanes Cymru | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 2** | Astudiaeth fanwl o hanes Ewrop a/neu'r Byd | Asesiad Di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd | Arholiad ysgrifenedig | 30% |
| **Uned 4** | Cymdeithas sy'n newid | Asesiad Di-arholiad | 20% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Asesu

## Crynodeb o'r Asesu

| **Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**<br>***Arholiad ysgrifenedig*: 1 awr**<br>**30% o'r cymhwyster**<br>60 marc |
|---|
| Bydd dysgwyr yn astudio un o'r chwe thestun hanesyddol canlynol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.<br><br>**Yr Oesoedd Canol**<br>**3.1** Y Llychlynwyr tua 750 - tua 1066<br>**3.2** Y Croesgadau tua 1095 - tua 1291<br>**Modern Cynnar**<br>**3.3** Ymerodraeth Songhai tua 1464 - tua 1591<br>**3.4** Yr Ymerodraeth Mughal tua 1526 - tua 1707<br>**Modern**<br>**3.5** Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 - tua 1953<br>**3.6** Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 - tua 1980<br><br>Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar wybodaeth hanesyddol am y testun, cysyniadau hanesyddol yr ail drefn a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. |

## Uned 3 Amcanion asesu a phwysoliadau

| | | |
|---|---|---|
| AA1 | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion y cyfnodau a astudiwyd | 10% |
| AA2 | Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth at gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd | 10% |
| AA3 | Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol | 10% |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Trosolwg o Uned 3: Opsiwn 3.1 Yr Oesoedd Canol: Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066

**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
(30% o'r cymhwyster)

Diben Uned 3 yw rhoi trosolwg ar gyfnod hanesyddol estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol. Nod yr opsiwn hwn yw meithrin dealltwriaeth dysgwyr o'r modd y newidiodd ac y datblygodd ehangiad y Llychlynwyr yn y cyfnod rhwng tua 750 a thua 1066.

| **Cyfnod amser** | **Opsiwn 3.1** | |
|---|---|---|
| Yr Oesoedd Canol | 3.1 | Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 |
| | 3.1.1 | Dylanwad ehangiad y Llychlynwyr tua'r dwyrain |
| | 3.1.2 | Effaith ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin |
| | 3.1.3 | Hyd a lled ehangiad y Llychlynwyr o gwmpas gogledd yr Iwerydd |
| | 3.1.4 | Sefydlu rheolaeth y Llychlynwyr yn Rhanbarth y Daniaid yn Ynysoedd Prydain |
| | 3.1.5 | Diwedd rheolaeth Denmarc yn ynysoedd Prydain |

.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynllun Dysgu ar gyfer Opsiwn 3.1 Yr Oesoedd Canol: Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066

Darperir y cynllun dysgu hwn fel enghraifft ddarluniadol. Ei nod yw rhoi strwythur ac ysbrydoliaeth ond gellir ei addasu er mwyn diwallu anghenion unigryw, dewisiadau a dynameg dosbarthiadau unigol. Caiff athrawon eu hannog i addasu elfennau fel sy'n ofynnol i gyd-fynd â galluoedd a nodau dysgu eu myfyrwyr.

**Ar gyfer pob adran o gynnwys yn yr uned hon, mae CBAC hefyd yn darparu adnoddau dysgu cyfunol a threfnwyr gwybodaeth. Gellir dod o hyd i'r rhain yma: https://adnoddau.cbac.co.uk/**

| 3.1 Cefndir: mamwlad y Llychlynwyr yn yr wythfed ganrif<br>(Mae pob opsiwn yn dechrau gydag adran gefndirol. Bwriad yr adrannau hyn yw rhoi cyd-destun angenrheidiol i ddysgwyr er mwyn iddynt gael mynediad at y testun hanesyddol. Ni fydd dysgwyr yn cael eu hasesu'n uniongyrchol ar gynnwys yr adrannau cefndirol). | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • amgylchedd Llychlyn *(Scandinavia)* yn yr wythfed ganrif. | Deall daearyddiaeth Llychlyn, Norwy, Sweden a Denmarc modern fel mamwlad y Llychlynwyr, gan gynnwys eu nodweddion daearyddol tebyg a gwahanol.<br><br>Ystyried sut effeithiodd y newid yn yr hinsawdd ar y Llychlynwyr, yn enwedig cyfnod cynnes yr Oesoedd Canol (a elwir hefyd yn anomaledd hinsawdd yr Oesoedd Canol). | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap gwag o Llychlyn, nodwch ffiniau'r prif wledydd heddiw ynghyd â'r prifddinasoedd.<br>• Ymchwiliwch i ddaearyddiaeth y tair prif wlad ac ychwanegwch eu manylion ac anodwch y map.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall yr amgylcheddau gwahanol o fewn Llychlyn.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Ymchwiliwch i'r modd yr oedd bywyd yn wahanol i bobl sy'n | **Gwefan(nau):**<br>Northern Europe Study: Scandinavia and the Nordic Region<br><br>Denmarc – National Geographic<br><br>Norwy – National Geographic<br><br>Sweden – National Geographic<br><br>Where did the Vikings come from? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyferbyniad rhwng bywyd mewn trefi a phentrefi yn Llychlyn y Llychlynwyr. | byw mewn trefi a phentrefi Llychlynnaidd.<br>• Ymchwiliwch i gyfnod cynnes yr Oesoedd Canol a thrafodwch sut gallai hyn fod wedi helpu'r Llychlynwyr i ehangu yn yr amgylchedd o amgylch Llychlyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am effaith yr hinsawdd ar ehangiad y Llychlynwyr. | Landscape of Viking Scandinavia<br>How the medieval warm period changed Norway forever<br><br>What the Vikings Can Teach Us About Adapting to Climate Change<br><br>Climate explained: what was the Medieval warm period?<br><br>**Fideo(s):**<br>Ancient DNA reveals the truth about Vikings<br><br>Where do the Scandinavians come from?<br><br>**Map(iau):**<br>Map o leoliad Llychlyn<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings,* gan John Haywood, rhan 1<br><br>**Llyfr(au):**<br>*“Viking Expansion c.750-1050”*, gan Chris Culpin, pennod 1 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • natur cymdeithas a chredoau'r Llychlynwyr. | Bywyd y Llychlynwyr, gan gynnwys tai, dillad a bwyd.<br><br>Strwythur cymdeithas y Llychlynwyr, gan gynnwys caethweision, bondi a jarliaid.<br><br>Rôl menywod mewn cymdeithas Lychlynnaidd.<br><br>Pwysigrwydd llongau a môr-deithiau i'r Llychlynwyr.<br><br>Prif nodweddion crefydd y Llychlynwyr, gan gynnwys eu harferion a'u safleoedd crefyddol, yn ogystal â'u credoau ynghylch y duwiau a'r cysyniad o Ragnarök. | **Gweithgareddau:**<br>• Lluniwch ddiagram i ddangos hierarchaeth cymdeithas y Llychlynwyr.<br>• Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau – gofynnwch i bob grŵp ganolbwyntio ar ymchwilio i fywyd y Llychlynwyr, rôl menywod, pwysigrwydd y môr neu grefydd y Llychlynwyr. Ar ôl y gwaith ymchwil, ad-drefnwch y grwpiau fel bod o leiaf un dysgwr o bob un o'r grwpiau gwreiddiol i rannu gwybodaeth, fel bod pob dysgwr yn cael yr holl wybodaeth yn y pen draw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall cymdeithas y Llychlynwyr ynghyd â phrif gredoau crefydd y Llychlynwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gallai dysgwyr drafod pa un oedd bwysicaf i fywyd y Llychlynwyr – eu llongau neu eu duwiau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y graddau yr oedd cymdeithas y Llychlynwyr yn grefyddol. | **Gwefan(nau):**<br>How a climate crisis helped shape Norse mythology<br><br>Sweden's legendary Vikings: Valhalla and the Viking gods<br><br>**Fideo(s):**<br>Viking Voyages: Society and Social Structure<br><br>Viking home life - BBC Teach<br><br>A day with a Viking family - BBC Bitesize<br><br>8 Viking Religious Beliefs You Didn't Know Existed<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhannau 1 a 2<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050* gan Chris Culpin, pennod 1<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings* gan Peter Swayer, penodau 8 a 9 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.1.1 Dylanwad ehangiad y Llychlynwyr tua'r dwyrain | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sefydlu aneddiadau Llychlynnaidd yn nhiriogaethau'r Rus, gan gynnwys:<br>  • Staraya Ladoga<br>  • Novgorod a Kyiv. | Twf Staraya Ladoga fel gorsaf fasnachu, i ddechrau ar gyfer y Llychlynwyr ac yna ar gyfer pobloedd eraill hefyd.<br><br>Ehangiad tua'r de i lawr afonydd Volga a Dnieper i sefydlu rheolaeth dros fasnach afonydd yn nhrefi'r Rus sef Novgorod a Kyiv.<br><br>Yr amrywiaeth o nwyddau a fasnachwyd gan y Llychlynwyr, gan gynnwys ifori'r walrws, ffyrrau ambr a chaethweision. | **Gweithgareddau:**<br>• Plotiwch y llwybr a gymerodd y Llychlynwyr i gyrraedd Kyiv ar fap.<br>• Anodwch y map â gwybodaeth am y prif drefi yr aethant drwyddynt a'r nwyddau a fasnachwyd ganddynt.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur a graddau ehangiad y Llychlynwyr ar hyd afonydd Volga a Dnieper i Kyiv.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gwrandewch ar un o'r podlediadau a defnyddiwch y wybodaeth i esbonio pwysigrwydd yr effaith a gafodd y Llychlynwyr ar yr hyn yw Rwsia ac Wcráin erbyn hyn.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd effaith y Llychlynwyr ar diriogaethau'r Rus. | **Gwefan(nau):**<br>The Vikings Eastward Expansion<br><br>The Vikings in the East<br><br>**Fideo(s):**<br>The Volga Trade Route<br><br>The Volga Vikings: Western Russia<br><br>**Podlediad(au):**<br>The Vikings Go East - The Rest Is History<br><br>The Volga Vikings - In Our Time<br><br>**Map(iau):**<br>Llwybrau masnach mawr Farangaidd<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhan 5 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050* gan Chris Culpin, pennod 2<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings* gan Peter Swayer, pennod 6<br><br>*River Kings*, gan Cat Jarman, penodau 7 a 8 | |
| • hyd a lled y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr â'r byd Arabaidd, gan gynnwys:<br>  • cyswllt â Baghdad<br>  • masnachu ar hyd y Llwybr Sidan. | Pwysigrwydd Baghdad fel canolfan fasnach a dysg yn y cyfnod hwn.<br><br>Pwysigrwydd y Llwybr Sidan fel rhwydwaith masnach rhyngwladol ar draws Asia ac i mewn i Affrica.<br><br>Nwyddau a fasnachwyd gan y Llychlynwyr gyda masnachwyr Mwslimaidd gan gynnwys sidan ac arian. | **Gweithgareddau:**<br>• Lluniwch y Llwybr Sidan ar fap amlinellol o Asia ac anodwch i ddangos Baghdad.<br>• Anodwch y map i esbonio beth oedd yn bwysig am Baghdad yn y cyfnod hwn a beth oedd y Llychlynwyr yn ei fasnachu â'r Mwslimiaid.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth oedd y Llwybr Sidan, pam yr oedd Baghdad yn bwysig a beth oedd hyn yn ei olygu i'r Llychlynwyr.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i farn rheolwyr a masnachwyr Mwslimiaid ar y Llychlynwyr. | **Gwefan(nau):**<br>The Vikings and the Silk Road<br><br>Spillings Hoard - Gatland Museum<br><br>Vikings and Abbasids: Worlds apart but interconnected<br><br>**Podlediad(au):**<br>Vikings in Medieval Baghdad - Gone Medieval<br><br>**Fideo(s):**<br>The Silk Road<br><br>Baghdad in 900AD<br><br>Viking trade | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch sut oedd y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr a'r Mwslimiaid. | The Volga Vikings: Baghdad<br><br>What did the Arabs Think about the Vikings?<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 5<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050,* gan Chris Culpin, pennod 2<br><br>*River Kings,* gan Cat Jarman, pennod 6<br><br>*Curriculum for Wales: History for 11-14 Years,* gan Rob Quinn ac R. Paul Evans, Pennod 4 | |
| • pwysigrwydd y gydberthynas rhwng y Llychlynwyr a'r Ymerodraeth Fysantaidd, gan gynnwys:<br>  • cyswllt â Chaergystennin<br>  • eu rôl yn y Gwarchodlu Farangaidd. | Pwysigrwydd yr Ymerodraeth Fysantaidd a'i phrifddinas Caergystennin, a alwyd yn Miklagard (y Ddinas Fawr) gan y Llychlynwyr.<br><br>Masnachwyr ac ymosodwyr Llychlynnaidd a'u | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch beth oedd yr Ymerodraeth Fysantaidd a beth oedd yn bwysig am ei phrifddinas, Caergystennin.<br>• Disgrifiwch sut daeth y Llychlynwyr yn fasnachwyr ac yn ymosodwyr yn yr Ymerodraeth.<br>• Esboniwch beth oedd y Gwarchodlu Farangaidd a | **Gwefan(nau):**<br>Globetrotting Vikings: The Quest for Constantinople<br><br>Miklagard: When the Vikings Reached Constantinople | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cysylltiadau â Bysantiwm.<br><br>Rôl Gwarchodlu Farangaidd yn gwarchod yr ymerawdwr ac yn brwydro ar faes y gad, gan gynnwys Harold Hardrada. | pham yr oedd yn bwysig i'r Ymerodraeth.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut newidiodd cydberthynas y Llychlynwyr â'r Ymerodraeth Fysantaidd dros amser.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl – a lwyddodd y Llychlynwyr i gael mwy o'r Ymerodraeth Fysantaidd na'r hyn a gafodd yr Ymerodraeth Fysantaidd gan y Llychlynwyr?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am bwysigrwydd y Llychlynwyr i'r Ymerodraeth Fysantaidd. | The Varangian Guard: Why Did Vikings Fight For The Byzantine Empire? \| HistoryExtra<br><br>The Varangian Guard: Who Were the Vikings of Byzantium?<br><br>**Fideo(s):**<br>Yr Ymerodraeth Fysantaidd<br>The rise and fall of the Byzantine Empire<br><br>**Map(iau):**<br>Yr Ymerodraeth Fysantaidd, tua 867<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 5<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 2<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 6<br><br>*River Kings*, gan Cat Jarman, pennod 9 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.1.2 Effaith ehangiad y Llychlynwyr tua'r gorllewin | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • effaith ymosodiadau'r Llychlynwyr ar dir mawr Prydain, gan gynnwys:<br>  • cyrchoedd ar gymunedau arfordirol a mynachlogydd<br>  • cyrch Ynys Sheppey yn 835. | Y rhesymau dros ymosodiadau'r Llychlynwyr ar Brydain, gan gynnwys prinder tir ffermio yn Llychlyn, cyfoeth teyrnasoedd gorllewin Ewrop, gwendidau Prydain wedi'u rhannu rhwng teyrnasoedd croes a phŵer cynyddol y brenhinoedd yn Llychlyn.<br><br>Arwyddocâd yr ymosodiad ar fynachdy Lindisfarne yn 793 a'r ymosodiadau dilynol ar ynysoedd Shetland ac Orkney.<br><br>Y newid mewn tactegau a welwyd yn ymosodiad Sheppey yn 835 a'r camau tuag at wersylloedd haf ar dir mawr Prydain. | **Gweithgareddau:**<br>• Lluniwch restr o'r rhesymau pam y dechreuodd y Llychlynwyr ymosod ar dir mawr Prydain o'r 790au ymlaen.<br>• Defnyddiwch fap gwag o dir mawr Prydain i blotio prif ardaloedd ymosodiadau'r Llychlynwyr, gan gynnwys Cymru a'r Alban.<br>• Ystyriwch pam yr oedd y digwyddiadau yn Sheppey a'r Orkneys yn wahanol i ymosodiadau eraill y Llychlynwyr yn y cyfnod hwn fel yr un ar Lindisfarne.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur ymosodiadau cynnar y Llychlynwyr ar dir mawr Prydain.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwr i'r modd yr ymatebodd rheolwyr teyrnasoedd tir mawr Prydain i fygythiad y Llychlynwyr, ysgrifennwch adroddiad ar hyn a | **Gwefan(nau):**<br>Why did the Vikings raid?<br><br>Lindisfarne - Sarah Woodbury<br><br>Viking robbery of churches and monasteries<br><br>The Vikings in Wales<br><br>The Lost History of Viking Wales<br><br>The Vikings in Scotland<br><br>Looting Scotland in the Viking Age<br><br>MJ Porter shares the history of the Isle of Sheppey<br><br>Kent and the Vikings: History of raids and invasions and how Anglo-Saxon period shaped the county | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymosodiadau'r Llychlynwyr ar Gymru gan gynnwys Ynys Môn yn 854, ynghyd â buddugoliaeth Rhodri Mawr dros Gorm, arweinydd y Llychlynwyr. | thrafodwch pa mor effeithiol oedd eu hymateb.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor llwyddiannus oedd rheolwyr tir mawr Prydain wrth ddelio â bygythiad y Llychlynwyr yn y cyfnod hwn. | **Fideo(s):**<br>The True Story of the First Viking Attack on England<br><br>The Vikings in Wales<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhan 3<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050* gan Chris Culpin, penodau 3 a 4<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings* gan Peter Swayer, pennod 3 | |
| • dylanwad gweithgareddau'r Llychlynwyr yn Iwerddon, gan gynnwys:<br>  • canolfannau ag amddiffynfeydd gan gynnwys Dulyn<br>  • eu rhan yn rhyfeloedd Brenhinoedd Iwerddon. | Ymosodiadau cynnar y Llychlynwyr ar fynachlogydd o Ynys Rathlin yn 795 i Fangor yn 824.<br><br>Symud i ganolfannau mwy parhaol yn Iwerddon, gan gynnwys yn 841 y longphort ar afon Liffey a fyddai'n datblygu i fod yn Ddulyn. | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap gwag o Iwerddon, plotiwch leoliadau ymosodiadau'r Llychlynwyr a'r canolfannau a sefydlwyd yn ddiweddarach.<br>• Lluniwch restr o'r ffyrdd yr effeithiodd y Llychlynwyr ar fywyd yn Iwerddon rhwng 795 a 1014.<br><br>**Canlyniad:** | **Gwefan(nau):**<br>Dyfodiad y Llychlynwyr<br><br>The Viking Age in Ireland<br><br>The Vikings in Ireland<br><br>How the Vikings forever changed Ireland<br><br>**Fideo(s):**<br>Viking Ireland: Arrival of Vikings & Beliefs | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhan y Llychlynwyr yn rhyfeloedd y ddegfed ganrif yn Iwerddon rhwng hawlwyr croes i fod yn frenin.<br><br>Trechiad terfynol y Llychlynwyr yn Clontarf yn 1014. | Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y dylanwad a gafodd y Llychlynwyr ar Iwerddon.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ar b'un a gafodd y Llychlynwyr eu trechu o'r diwedd ym mrwydr Clontarf yn 1015, neu a wnaethant ddiflannu fel grŵp ar wahân, ar ôl iddynt ddod yn rhan o gymdeithas Wyddelig.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch yr hyn a ddigwyddodd i'r Llychlynwyr yn y pen draw yn Iwerddon. | Viking Video: The Vikings in Ireland<br><br>Viking Video: The Vikings in the Midlands<br><br>Viking Ireland: The Irish & the Vikings<br><br>Viking Ireland: What was Daily Life like in Viking Ireland?<br><br>Viking Ireland: Viking Women in Ireland<br><br>Viking Ireland: Legacy of the Vikings in Ireland<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhan 3<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050* gan Chris Culpin, penodau 3 a 4<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings* gan Peter Swayer, pennod 4 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • effeithiau brwydrau'r Llychlynwyr yn erbyn Ffrainc a Sbaen, gan gynnwys:<br>  • ymosodiadau ar yr Ymerodraeth Ffrancaidd<br>  • ymosodiadau ar Sbaen. | Lleoliad a natur yr Ymerodraeth Ffrancaidd a sefydlwyd gan Charlemange a chyfyngiadau ymosodiadau'r Llychlynwyr pan oedd yn fyw i'w hamddiffyn.<br><br>Effeithiolrwydd y mesur a gymerwyd gan Siarl Foel rhwng 840 ac 877 i leihau effaith ymosodiadau'r Llychlynwyr ar yr Ymerodraeth Ffrancaidd a goblygiadau hyn ar gyfer ymosodiadau'r Llychlynwyr ar Brydain yn y dyfodol.<br><br>Sefydlu aneddiadau Llychlynnaidd yng ngogledd Ffrainc ar dir a roddwyd i Rollo, arweinydd y Llychlynwyr gan frenin Ffrainc, Siarl y Syml, a ddatblygodd i fod yn Normandi yn ddiweddarach.<br><br>Ymosodiadau'r Llychlynwyr ar yr Iberiaid yn y 840au a drechwyd gan Frenin Ramiro I ac a | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch beth oedd yr Ymerodraeth Ffrancaidd a ble yr oedd.<br>• Ar fap amlinellol o Ffrainc a Sbaen, ymchwiliwch i leoliad cyrchoedd y Llychlynwyr a chofnodwch ac anodwch bob lleoliad.<br>• Dylech gynnwys Llychlynwyr yng ngogledd Ffrainc a sefydlu'r ddugaeth Normanaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y cysylltiad rhwng y Llychlynwyr, Ffrainc a Sbaen.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Ymchwiliwch i sut ymatebodd rheolwyr Ffrainc a Sbaen i fygythiad y Llychlynwyr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ba mor ddifrifol oedd bygythiad y Llychlynwyr i reolwyr Sbaen a Ffrainc. | **Gwefan(nau):**<br>The Vikings on the Continent<br><br>The Viking Influence: Tracing the remarkable history of Vikings in France<br><br>Siege of Paris - Britannica<br><br>Did the Vikings Raid in Spain?<br><br>Spain's little-known Viking history is being uncovered<br><br>The Vikings Raids on Seville<br><br>**Fideo(s):**<br>The Normans: The Birth of Normandy<br><br>**Podlediad(au):**<br>Vikings In the Frankish Kingdom - Gone Medieval<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhan 3 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | barhaodd yn ysbeidiol hyd at yr 11eg ganrif. | | **Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 3<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 2 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.1.3 Hyd a lled ehangiad y Llychlynwyr o gwmpas gogledd yr Iwerydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • sefydlu aneddiadau Llychlynnaidd yng Ngwlad yr Iâ, gan gynnwys:<br>• rôl Hrafna-Flóki Vilgerðarson<br>• yr Althing a chymdeithas Gwlad yr Iâ. | Sut cafodd fforwyr Llychlynnaidd fel Hrafna-Flóki Vilgerðarson eu gorfodi i lanio yng Ngwlad yr Iâ oherwydd tywydd gwael a chanfod adnoddau fel y walrws y gallent ei ddefnyddio i fasnachu.<br><br>Natur yr aneddiadau cyntaf a reolwyd gan gynulliad yr Althing.<br><br>Y penderfyniad i Wlad yr Iâ droi'n Gristnogol yn 1000. | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap o Ogledd yr Iwerydd, wedi'i ganoli o amgylch Gwlad yr Iâ, cofnodwch leoliad aneddiadau'r Llychlynwyr a'r llwybr a gymerwyd ganddynt i gyrraedd yno.<br>• Esboniwch beth oedd yr Althing a beth oedd natur cymdeithas y Llychlynwyr yng Ngwlad yr Iâ.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur anheddiad y Llychlynwyr yng Ngwlad yr Iâ.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cymharwch fywyd yng Ngwlad yr Iâ â bywyd yn Llychlyn fel y disgrifiwyd yn 3.1.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch pa mor wahanol oedd bywyd yng Ngwlad yr Iâ o gymharu â bywyd yn Llychlyn. | **Gwefan(nau):**<br>All About the Vikings in Iceland: Origin & Facts<br><br>Vikings in Iceland: A Journey Through Time<br><br>**Fideo(s):**<br>The Viking Discovery and Settlement of Iceland<br><br>**Map(iau):**<br>Züge, Landnahmen und Siedlungsgebiete der Nordmänner - 800-1050<br><br>Ymgyrchoedd y Llychlynwyr<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 4<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-105,0* gan Chris Culpin, pennod 4 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • natur anheddiad yr Ynys Las, gan gynnwys:<br>• Eric Goch<br>• aneddiadau'r gorllewin a'r dwyrain. | Sut arweiniodd alltudiaeth y troseddwr Eric Goch o Wlad yr Iâ at y ffaith iddo fforio arfordir yr Ynys Las a chanfod tiroedd trigiadwy.<br><br>Yr aneddiadau a sefydlwyd yn 986 ar gyfer hela, ffermio a masnachu.<br><br>Effaith y newid yn yr hinsawdd a dirywiad aneddiadau Llychlynnaidd yn yr Ynys Las ers eu hanterth yn y 1050au. | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap o'r Ynys Las, cofnodwch y llwybr a gymerodd y Llychlynwyr i gyrraedd yno a lleoliadau eu prif aneddiadau (gorllewinol a dwyreiniol).<br>• Esboniwch pam y gadawodd y Llychlynwyr yr aneddiadau hyn yn y pen draw.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut le oedd anheddiad Llychlynnaidd yr Ynys Las.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Gyda'r wybodaeth yma cysylltwch yn ôl i 3.1 ac ystyriwch y graddau y dylanwadodd y newid yn yr hinsawdd, yn enwedig cyfnod cynnes yr Oesoedd Canol, ar fasnach a threfedigaethu Llychlynnaidd.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y graddau y dylanwadodd y newid yn yr hinsawdd ar fforiadau ac aneddiadau'r Llychlynwyr. | **Gwefan(nau):**<br>The Norse Settlement of Greenland<br><br>Vikings and the Establishment of Norse Settlements in Greenland and North America (c. 986-1000)<br><br>**Fideo(s):**<br>Erik the Red and Viking Greenland<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 4<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 4<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 5 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • fforio arfordir Gogledd America, gan gynnwys:<br>  • Leif Erikson<br>• y Leifsbudir yn Vinland. | Rôl Leif Erikson, mab Eric Goch, yn olrhain hanes llong a oedd wedi mynd ar goll i'r gorllewin o'r Ynys Las ac a welodd dir anhysbys.<br><br>Leif Erkson yn gaeafu ar safle a elwir yn Leifsbuoir a'i ddisgrifiad o'r tir hwn fel Vinland.<br><br>Prinder aneddiadau parhaol yn golygu mai mythau oedd yr hanesion hyn nes y canfuwyd tystiolaeth archeolegol o'r safleoedd Llychlynnaidd hyn yn 1960 yn L'Anse aux Meadows ac yn 2016 yn Point Rosee. | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap o arfordir gogledd-ddwyreiniol Gogledd America, plotiwch lwybr tebygol Leif Erikson a'r achosion o weld tir.<br>• Esboniwch sut profodd archeoleg fodern fod y Llychlynwyr wedi ymweld â Gogledd America.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur cysylltiad y Llychlynwyr â Gogledd America.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Cymharwch gysylltiad y Llychlynwyr â Gwlad yr Iâ, yr Ynys Las ac America, gan chwilio am nodweddion tebyg a gwahanol.<br>• Pa mor wahanol oedd cysylltiad y Llychlynwyr ag America o gymharu â fforiadau Llychlynnaidd eraill a astudiwyd?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am raddau cyswllt y Llychlynwyr â Gogledd America. | **Gwefan(nau):**<br>The Norse Settlement of Greenland<br><br>Why Did the Vikings Disappear From Greenland?<br><br>Vikings and the Establishment of Norse Settlements in Greenland and North America (c. 986-1000)<br><br>A Stunning Discovery Proves That Vikings Reached the Americas Before Columbus<br><br>Vikings settled in North America in 1021AD, study says<br><br>The Vikings: A Memorable Visit to America<br><br>**Fideo(s):**<br>How did the Vikings Reach America 500 years before Columbus?<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 4 | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 4<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.1.4 Sefydlu rheolaeth y Llychlynwyr yn Rhanbarth y Daniaid yn Ynysoedd Prydain | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • natur rhyfela'r Llychlynwyr, gan gynnwys:<br>  • tactegau brwydro ar y tir ac ar y môr<br>  • rôl menywod a'r ddadl dros ryfelwragedd. | Arfau'r Llychlynwyr gan gynnwys cleddyfau, bwyelli, tarianau a helmedi.<br><br>Tactegau'r Llychlynwyr gan gynnwys defnyddio'r wal amddiffyn a berserkers.<br><br>Gwella dyluniadau cychod hir y Llychlynwyr, gan gynnwys eu defnyddio â hwyliau neu rwyfau.<br><br>Rôl draddodiadol menywod Llychlyn yn rheoli'r cartref, ond tystiolaeth o ryfelwyr benywaidd fel Lagertha neu Freydis Eiríksdóttir a'r enw torfol am grwpiau o ryfelwyr benywaidd - y rhyfelwragedd. | **Gweithgaredd:**<br>Lluniwch ddiagram corryn i gofnodi manylion yr arfau a'r tactegau a ddefnyddiwyd gan y Llychlynwyr.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut roedd y Llychlynwyr yn brwydro.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Paratowch gyflwyniad byr i weddill y dosbarth i esbonio'r ddadl ynghylch bodolaeth rhyfelwragedd Llychlynnaidd.<br>• Esboniwch pam yr oedd tactegau brwydro'r Llychlynwyr yn aml yn fwy effeithiol na'r rhai a ddefnyddiwyd gan eu gwrthwynebwyr.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am rôl menywod yn rhyfela'r Llychlynwyr. | **Gwefan(nau):**<br>How did the Vikings fight?<br><br>Viking combat techniques<br><br>The Viking Longship<br><br>New Oseberg ship, reconstruction of the hull form<br><br>Sea battles of the Vikings: A journey into the maritime past<br><br>Female Viking Warriors: Facts vs Fiction<br><br>DNA Suggests Viking Women Were Powerful Warriors<br><br>**Fideo(s):**<br>The truth about the Vikings - BBC Bitesize<br><br>Viking ships | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Every Genius Detail That Made Viking Longships Remarkable<br><br>What Made the Viking Longship So Terrifyingly Effective<br><br>What's so special about Viking ships?<br><br>Did Viking Warrior Women Exist?<br><br>Vikings Women<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 2<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 4<br><br>*River Kings*, gan Cat Jarman, penodau 1 a 5 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • y Llychlynwyr yn goresgyn tir mawr Prydain, gan gynnwys:<br>  • y Fyddin Fawr Baganaidd<br>  • heddwch â theyrnas Eingl-Sacsonaidd Wessex. | Teyrnasoedd Eingl-Sacsonaidd croes Dwyrain Anglia, Mercia, Northumbria a Wessex.<br><br>Ymosodiad sylweddol Byddin Fawr Baganaidd y Llychlynwyr ar dir mawr Prydain dan arweiniad Halfdan ac Ivar Ddiasgwrn.<br><br>Ymgyrchoedd y fyddin Lychlynnaidd hon rhwng 865 a 878 gan arwain at y ffaith mai Wessex oedd yr unig deyrnas Sacsonaidd nad oedd yn cael ei rheoli gan y Llychlynwyr.<br><br>Cytundeb Wedmore yn 878 a heddwch â'r Llychlynwyr, gan roi rhan orllewinol Mercia i Wessex. | **Gweithgareddau:**<br>• Ar fap amlinellol o dir mawr Prydain, labelwch deyrnasoedd Anglo-Sacsonaidd Dwyrain Anglia, Mercia, Northumbria a Wessex.<br>• Anodwch y map i ddangos cynnydd y Fyddin Fawr Baganaidd gan gynnwys brwydr 878 yn Edgington.<br>• Esboniwch pam y dechreuodd y Llychlynwyr yr ymgyrch hon.<br>• Disgrifiwch dermau Cytundeb Wedmore.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut anheddodd niferoedd mawr o'r Llychlynwyr yn Lloegr.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Cymharwch frwydrau'r Llychlynwyr yn y cyfnod hwn â'r rai y sonnir amdanynt yn 3.1.2, gan dynnu sylw at nodweddion tebyg a gwahanol.<br>• Gwrandewch ar bodlediadau The Rest is History am Alfred ac esboniwch pa mor bwysig oedd y Llychlynwyr yn ystod ei deyrnasiad fel Brenin Wessex. | **Gwefan(nau):**<br>Who was Alfred the Great?<br><br>The Great Heathen Army<br><br>The Great Heathen Army - Historic UK<br><br>History of Wedmore Somerset<br><br>Treaty of Wedmore, 878-890<br><br>**Fideo(s):**<br>Viking invaders and settlers<br><br>Retracing The REAL Great Viking Army<br><br>The Great Heathen Army: How the Vikings Invaded England<br><br>Battle Of Edington 878AD<br><br>**Podlediad(au):**<br>Alfred the Great: Fury of the Vikings Part 1 - The Rest Is History<br><br>Alfred the Great: Fury of the Vikings Part 2 - The Rest Is History | 3 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd concwestau'r Fyddin Fawr Baganaidd. | **Map(iau):**<br>Llwybrau'r Frwydr Fawr Baganaidd rhwng 865 ac 878<br><br>Lloegr 878<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhannau 3 a 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 3<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 3<br><br>*River Kings*, gan Cat Jarman, pennod 1 | |
| • bywyd ym Mhrydain y Llychlynwyr<br>  • natur a maint Rhanbarth y Daniaid<br>  • anheddiad Llychlynnaidd Jorvik. | Maint daearyddol Rhanbarth y Daniaid, ildiwyd y diriogaeth i'r Daniaid gan Frenin Alfred o Wessex yn 878.<br><br>Aneddiadau'r Llychlynwyr yn Rhanbarth y Daniaid, mewn ardaloedd gwledig ac yn y bwrdeistrefi (trefi | **Gweithgareddau:**<br>• Ychwanegwch linell i'r map o dir mawr Prydain o'r wers flaenorol i ddangos ffiniau Rhanbarth y Daniaid.<br>• Disgrifiwch sut fywyd oedd gan bobl Rhanbarth y Daniaid.<br>• Lluniwch ddiagram neu anodwch fap i ddangos prif nodweddion Jorvik y Llychlynwyr. | **Gwefan(nau):**<br>The Danelaw: A place or an idea?<br><br>The Five Boroughs Of Danelaw - Historic UK<br><br>When the Vikings ruled in Britain: A brief history of Danelaw | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | caerog) yn eu tiriogaethau.<br><br>Datblygiad bwrdeistref Jorvik gan y Daniaid i fod yn un o ddinasoedd pwysicaf Ewrop.<br><br>Newid rheolaeth Jorvik rhwng 927 a 954 rhwng Athelstan, y Brenin Anglo-Sacsonaidd, Olaf Guthrithsson o Iwerddon ac Eric Bloodaxe o Norwy cyn dod dan reolaeth ieirll Anglo-Sacsonaidd. | • Ymchwiliwch i'r canfyddiadau archeolegol diweddaraf am Efrog.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut oedd bywyd yn Rhanbarth y Daniaid.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Esboniwch pam y newidiodd y rheolaeth o Jorvik ar ôl 927.<br>• Faint y gall haneswyr ei ddysgu am fywyd Llychlynwyr o ganolfan Jorvik am y Llychlynwyr a agorodd yn 1984?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd Jorvik fel ffynhonnell o wybodaeth am y Llychlynwyr. | Jorvik: The Viking City of York<br><br>Scandinavian York<br><br>The Vikings and Jorvik<br><br>Life in Viking York<br><br>The People of Jorvik<br><br>**Podlediad(au):**<br>The Danelaw - In Our Time<br><br>**Fideo(s):**<br>Five Boroughs of the Danelaw<br><br>What was Viking Danelaw?<br><br>The Viking History of York<br><br>Time Team Special: The Real Vikings<br><br>One of The Most Infamous Finds In York!?<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings* gan John Haywood, rhan 6 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 4<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 3 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.1.5 Diwedd rheolaeth Denmarc yn Ynysoedd Prydain | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • agweddau newidiol Llychlynwyr Denmarc, gan gynnwys:<br>• Harald Bluetooth a'i dröedigaeth Gristnogol<br>• yr ymateb i Gyflafan Gŵyl Sant Bricius. | Bedyddio Brenin y Daniaid Harald Bluetooth yn Gristion yn 965, er bod arferion addoli paganaidd wedi parhau ymysg llawer am ddegawdau.<br><br>Camau Bluetooth i atgyfnerthu ei deyrnas drwy symud ei gyfalaf, adeiladu waliau i amddiffyn ei drefi, adeiladu caerau newydd a gwella dulliau cyfathrebu drwy adeiladu pontydd a ffyrdd i gysylltu ei deyrnas yn well.<br><br>Arwyddocâd marwolaeth Bluetooth yn 986 mewn brwydr yn erbyn ei fab gwrthryfelgar Svein, a fyddai'n arwain ymateb creulon i'r driniaeth a gafodd y Daniaid gan y Saeson yng Nghyflafan | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch pam y newidiodd Harald Bluetooth i Gristnogaeth ac ystyriwch pam y gallai hyn fod wedi bod yn bwysig i'r Llychlynwyr yn gyffredinol.<br>• Disgrifiwch sut newidiodd Harald Bluetooth ei deyrnas er mwyn gwella ei reolaeth drosti.<br>• Ymchwiliwch i ganlyniadau ymosodiad Svein Forkbeard ar dir mawr Prydain o 1002.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut newidiodd y Llychlynwyr o ganlyniad i deyrnasiad Harald Bluetooth.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl ar sut newidiodd y Llychlynwyr drwy deyrnasiad Bluetooth, gydag un ochr yn dadlau bod y newidiadau yn arwyddocaol, a'r llall yn dadlau eu bod yn arwynebol. | **Gwefan(nau):**<br>Harald Bluetooth: The Viking Who Gave His Name to Wireless Technology<br><br>The Viking Origins of your Bluetooth Devices<br><br>St. Brice's Day and the Danish Conquest<br><br>The St Brice's Day Massacre - Historic UK<br><br>The St Brice's Day Massacre - Museum of Oxford<br><br>**Fideo(s):**<br>The Death of the Old Norse Gods<br><br>Vikings: Secrets of the Vikings<br><br>St. Brice's Day Massacre: A Viking genocide?<br><br>**Map(iau):** | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gŵyl Sant Bricius yn 1002. | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y graddau y newidiodd y Llychlynwyr drwy deyrnasiad Harald Bluetooth. | Brenhiniaeth Harald<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 5<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 7 | |
| • sefydlu a dymchwel yr Ymerodraeth Eingl–Lychlynnaidd (Môr y Gogledd), gan gynnwys:<br>  • teyrnasiad Svein Forkbeard<br>  • teyrnasiad Cnut. | Teyrnasiad Svein Forkbeard drwy briodi i deulu brenhinol Sweden a'i fuddugoliaeth dros frenin Norwy, Olaf Tryggvason gan roi rheolaeth iddo o'r rhan fwyaf o Lychlyn erbyn 1002<br><br>Yr ymosodiad annisgwyl ar y Daniaid sy'n byw yn Lloegr dan orchymyn Ethelred y brenin Anglo-Sacsonaidd a gafodd ei bryfocio i ddwysáu ei ymosodiadau ar Loegr gan arwain at Svein yn dod yn frenin Lloegr yn 1013. | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch sut cynyddodd Svein Forkbeard ei reolaeth dros Lychlyn.<br>• Ymchwiliwch i deyrnasiad Ethelred y brenin Sacsonaidd ac ystyriwch pam ei fod yn cael ei alw'n "Ddigyngor".<br>• Ymchwiliwch i sut daeth Svein Forkbeard yn frenin ar Loegr.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall natur y deyrnas Anglo-Sacsonaidd.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch pa mor llwyddiannus oedd Cnut fel rheolwr o gymharu â Svein Forkbread. | **Gwefan(nau):**<br>The Danes - Sarah Woodbury<br><br>King Aethelred The Unready - Historic UK<br><br>King Aethelred II the Unready<br><br>Sweyn Forkbeard - Historic UK<br><br>Sweyn Forkbeard: The legend of the Viking king 'killed by a ghost'<br><br>Sweyn Forkbeard: England's forgotten Viking king | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Teyrnasiad heddychlon Cnut fel brenin Lloegr, Norwy a Denmarc tan ei farwolaeth yn 1035. | **Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am effeithiolrwydd Svein Forkbeard a Cnut fel rheolwyr. | King Cnut The Great - Historic UK<br><br>Cnut: Emperor Of The North<br><br>Cnut the Great<br><br>**Fideo(s):**<br>The True Story of King Sweyn Forkbeard<br><br>Canute the Great: King of the North Sea Empire<br><br>**Map(iau):**<br>Ymerodraeth y Daniaid<br><br>Tiroedd Cnut<br><br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 5<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 7 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • yr olaf o reolwyr y Llychlynwyr, gan gynnwys:<br>  • Harthacnut<br>  • Harald Hardrada a Brwydr Stamford Bridge. | Teyrnasiad byr Harthacnut fel brenin Lloegr rhwng 1040 a 1042 ar ôl marwolaeth ei hanner brawd Harald Harefoot.<br><br>Trosglwyddwyd gorsedd Lloegr i Edward Gyffeswr, mab brenin Ethelred, brenin Anglo-Sacsonaidd oedd â chysylltiadau teuluol â dugiaid Normandi.<br><br>Daeth Harald Hardraba yn frenin Norwy yn 1046, gan golli gorsedd Denmarc i Sweyn II. Yn 1066, ymosododd ar ogledd Lloegr i hawlio'r orsedd ar ôl marwolaeth Edward ond cafodd ei ladd ym Mrwydr Stemford Bridge. | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch sut daeth Edward Gyffeswr yn frenin a beth oedd hyn yn ei olygu i reolaeth y Llychlynwyr yn Lloegr.<br>• Ymchwiliwch i ffawd Harald Harbrada yn Llychlyn ac yn Lloegr ac ysgrifennwch adroddiad ar hyn.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall sut daeth reolaeth y Llychlynwyr yn Lloegr i ben.<br><br>**Gweithgareddau uwch:**<br>• Cymharwch yr hyn a ddigwyddodd i'r Llychlynwyr yn Lloegr dros amser, gan ystyried digwyddiadau o 3.1.2, 3.1.4 a 3.1.5. Pa nodweddion tebyg a gwahanol a geir?<br>• Ystyriwch bwysigrwydd buddugoliaeth y Normaniaid yn 1066 a'i phwysigrwydd i Loegr am eu bod yn ddisgynyddion i'r Llychlynwyr.<br>• Pa mor bwysig oedd y Llychlynwyr yn hanes Lloegr?<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>King Harold I: Harold Harefoot - Historic UK<br><br>The Brief Reign of King Harold I of England<br><br>Harthacnut - Historic UK<br><br>King Harthacnut the Last Danish King of England<br><br>Edward The Confessor - Historic UK<br><br>Edward the Confessor (c.1003-1066)<br><br>Harald Hardrada: King of Norway 1046-1066<br><br>Harald Hardrada: The last Viking<br><br>The Battle of Stamford Bridge<br><br>1066: The battles - BBC Bitesize<br><br>**Fideo(s):**<br>England 1035-42: Harold and Harthacnut | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch faint yr oedd pŵer y Llychlynwyr wedi newid. | Edward the Confessor: English monarchs<br><br>The Greatest Viking King: Harald Hardrada<br><br>1066: The Battle of Stamford Bridge<br><br>Events of 1066<br>Who were the claimants to the throne in 1066?<br><br>1066: The Battle of Fulford<br><br>1066: The Battle of Stamford Bridge<br><br>1066: The Battle of Hastings<br><br>**Map(iau):**<br>*Penguin Historical Atlas of the Vikings*, gan John Haywood, rhan 6<br><br>**Llyfr(au):**<br>*Viking Expansion c.750-1050*, gan Chris Culpin, pennod 5<br><br>*Oxford Illustrated History of the Vikings*, gan Peter Swayer, pennod 7 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Gallai dysgwyr ymweld â'r mynachdy yn Lindisfarne i ddysgu am effaith ymosodiad y Llychlynwyr yno, neu'r safleoedd Llychlynnaidd ar ynysoedd Orkney a Shetland. Gallai dysgwyr hefyd ymweld â chanolfan Jorvik yn Efrog i ddysgu mwy am fywyd ym Mhrydain y Llychlynwyr. |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Drwy astudio credoau crefyddol y Llychlynwyr a'r ffaith eu bod wedi newid i Gristnogaeth yn y pen draw gellir gweld sut datblygodd eu goddefgarwch a'u sgiliau hunanfyfyrio. Cyn ac ar ôl eu hymosodiadau treisgar cafwyd cyfnodau o fywyd heddychlon ac yn y pen draw daethant yn rhan o'r poblogaethau lleol yn Ffrainc, Prydain ac Iwerddon. |
| Cydweithio | Mae llawer o enghreifftiau o drafodaethau, fel:<br>• beth oedd bwysicaf ym mywyd y Llychlynwyr - eu llongau neu eu duwiau.<br>• pa mor llwyddiannus oedd Cnut fel rheolwr o gymharu â Svein Forkbread.<br><br>Mae cyfleoedd i ddadlau hefyd, fel:<br>• A lwyddodd y Llychlynwyr i gael mwy o'r Ymerodraeth Fysantaidd na'r hyn a gafodd yr Ymerodraeth Fysantaidd gan y Llychlynwyr?<br>• A gafodd y Llychlynwyr eu trechu o'r diwedd ym mrwydr Clontarf yn 1015, neu a wnaethant ddiflannu fel grŵp ar wahân, ar ôl iddynt ddod yn rhan o gymdeithas Wyddelig?<br>• I ba raddau y newidiodd y Llychlynwyr drwy deyrnasiad Bluetooth, gydag un ochr yn dadlau bod y newidiadau yn arwyddocaol, a'r llall yn dadlau eu bod yn arwynebol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| **Llinynnau Cwricwlwm i Gymru** | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae Uned 3 yn rhoi chwe phwnc hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r pynciau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol y bobloedd. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau a ymyleiddiwyd o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd deheuol y byd.<br><br>Mae Opsiwn 3.1 Yr Oesoedd Canol: Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes yr Oesoedd Canol yng Ngogledd Ewrop a'r Iwerydd. Mae ymosodiadau'r Llychlynwyr ym Mhrydain yn cynnwys lleoliadau o Lindisfarne i Sheppey yn nwyrain Lloegr, ynghyd ag ynysoedd Orkney a Shetland yn yr Alban ac ar draws Môr Iwerddon yn Iwerddon. Fodd bynnag, caiff y cysylltiadau cenedlaethol hyn wedyn eu cysylltu â Llychlyn ynghyd ag ymosodiadau yn Ewrop ar Ffrainc a Sbaen, gan fasnachu drwy'r hyn sydd bellach yn Rwsia ac Wcráin fodern, yr Ymerodraeth Fysantaidd a rhwydweithiau masnachu Mwslimaidd a oedd wedi'u lleoli o amgylch Baghdad. |
| Cynaliadwyedd | Bydd dysgwyr yn deall bod ffordd o fyw y Llychlynwyr yn cael ei llywio gan amgylchedd Llychlyn, ond hefyd bod y newid yn yr hinsawdd wedi dylanwadu ar eu fforiadau wrth i gyfnod cynnes yr Oesoedd Canol leihau'r iâ môr yng ngogledd yr Iwerydd a sicrhau y gellid teithio ar hyd afonydd dwyrain Ewrop drwy'r gaeaf. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Mae'r uned hon yn ystyried safbwynt y Llychlynwyr, ond hefyd y rheini o amrywiaeth eang o gymdeithasau eraill y buont yn ymgysylltu â nhw.<br><br>Mae amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y Llychlynwyr a barnau amdanynt gan Ewropeaid fel y Saeson a'r Gwyddelod, ynghyd â chymdeithasau Mwslimaidd a'r Ymerodraeth Fysantaidd yn y Dwyrain Agos. Mae'r uned yn herio'r stereoteip o'r Llychlynwyr fel barbariaid treisgar. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Bydd dysgwyr yn deall bod caethwasiaeth yn bodoli yng nghymdeithas y Llychlynwyr, ond hefyd bod gan y Llychlynwyr gydberthynas gadarnhaol ag amrywiaeth eang o bobloedd wahanol o'r Gwyddelod yn y gorllewin i'r Arabiaid yn y dwyrain. Cafwyd Ymerodraeth Lychlynnaidd gymharol fyrhoedlog o amgylch Môr y Gogledd hefyd a oedd wedi deillio o Ddenmarc.<br><br>Roedd aneddiadau Llychlynnaidd yn Iwerddon, Lloegr a Rhanbarth y Daniaid, yr Alban a gogledd Ffrainc yn enghreifftiau o wladychu, ac roedd rhyfeloedd concwest fel y rhai gan Sveyn Forkbeard yn Lloegr yn ymerodrol eu natur.<br><br>Mae'r uned yn archwilio cymdeithas y Llychlynwyr, gan gynnwys y caethweision a aned i rieni a oedd yn gaethweision, a gipiwyd mewn rhyfel neu a wnaed yn gaethweision er mwyn talu dyledion. |
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Bydd dysgwyr yn deall bod llawer o gyfleoedd swyddi i bobloedd Ynysoedd Prydain yng nghyfnod yr Oesoedd Canol, er bod y swyddi hynny wedi diflannu i raddau helaeth bellach ac na fyddent yn apelio i bobl sy'n byw ym Mhrydain fodern. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd – Llythrennedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Gwrando</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Darllen</td><td>Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer diben.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. | |
| | | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. | |
| | **Enghreifftiau** | |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellir ymgorffori cymhwysedd digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Dinasyddiaeth | Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â phwnc. |
| | |
| Rhyngweithio a Chydweithio | Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith. |
| | **Enghraifft** |
| | Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno. |
| | |
| Cynhyrchu | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol. |
| | **Enghraifft** |
| | • Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudiaeth. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau Cyfannol** | |
|---|---|
| Creadigrwydd ac Arloesi | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys creadigrwydd ac arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau. |
| | |
| Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a diben.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cynllunio a threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys effeithiolrwydd personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am bynciau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.1 Y Llychlynwyr, tua 750 – tua 1066

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Althing | Cynulliad o ddynion rhydd yng Ngwlad yr Iâ a oedd yn gwneud penderfyniadau pwysig. |
| Eingl-Sacsonaidd | Disgynyddion llwythi Almaenaidd yr Angliaid, y Jiwtiaid a'r Sacsoniaid a oedd wedi mudo i fyw yn Lloegr o'r 5ed ganrif AD. |
| Berserker | Rhyfelwyr elitaidd a fyddai'n gweithio eu hunain i fyny i gynddaredd treisgar cyn brwydr ac a oedd yn aml yn ymladd yn noeth. |
| Bondi | Dynion rhydd a oedd yn berchen ar eu tir eu hunain, ac yn aml byddai ganddynt sawl caethwas i'w helpu i'w ffermio. |
| Yr Ymerodraeth Fysantaidd | Hanner ddwyreiniol Gristnogol Roegaidd yr hen Ymerodraeth Rufeinig oedd â'i phrifddinas yng Nghaergystennin. |
| Yr Ymerodraeth Ffrancaidd | Yr ymerodraeth o lwythi Almaenaidd yn yr hyn yw Ffrainc a'r Almaen fodern erbyn hyn. |
| Jarliaid | Rhyfelwyr a oedd yn berchen ar lawer o dir, y penaethiaid a oedd yn rheoli'r bondi yn eu hardal. |
| Longphort | Canolfan i amddiffyn llongau'r Llychlynwyr rhag ymosodiadau. |
| Cwch hir | Dyluniad nodedig llongau'r Llychlynwyr y gellid eu hwylio ar draws y môr neu eu rhwyfo i fyny afon. |
| Cyfnod Cynnes Canoloesol | Term modern a ddefnyddir i ddisgrifio hinsawdd gogledd Ewrop, yn benodol, rhwng 700 a 1200 lle'r oedd tymereddau cyfartalog ychydig yn gynhesach na'r arfer. Fe'i gelwir hefyd yn Anomaledd Hinsawdd yr Oesoedd Canol |
| Mynachlog | Adeilad lle'r oedd cymuned o fynachod Cristnogol yn byw. |
| Norman | Gair a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r Llychlynwyr, gŵyr o'r Gogledd, a oedd wedi setlo yng ngogledd Ffrainc. |
| Norwyaidd | Gair arall a ddefnyddir i ddisgrifio'r Llychlynwyr, gŵyr o'r Gogledd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Ragnarok | Cred y Llychlynwyr ynghylch diwedd y byd, y byddai'r duwiau yn ymladd ac y byddai'r byd yn llosgi ac yna'n boddi. |
| Rus | Y bobl a oedd yn byw yn y rhanbarth o Rwsia fodern ar hyd afonydd Volga a Dnieper yn yr Oesoedd Canol. |
| Llychlyn | Yr enw torfol am wledydd modern Norwy, Denmarc a Sweden. |
| Rhyfelwragedd | Rhyfelwyr Llychlynnaidd benywaidd. |
| Llwybr Sidan | Hen lwybr masnach a oedd yn cysylltu arfordir dwyreiniol Asia â phen dwyreiniol Môr y Canoldir a gogledd Affrica. |
| Caethweision | Y rhai a oedd yn gwneud y gwaith trwm ar ffermydd. Roeddent yn gaethweision am eu bod wedi'u cipio mewn rhyfel, yn gorfod ad-dalu dyled neu am fod eu rhieni'n gaethweision. |
| Gwarchodlu Farangaidd | Uned o filwyr yn yr Ymerodraeth Fysantaidd a ddaeth yn warchodwyr yr ymerawdwr a oedd yn Llychlynwyr yn wreiddiol. |
| Llychlynnwr | Yr enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r masnachwyr a'r ymosodwyr a ddaeth o Lychlyn yn yr Oesoedd Canol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025